

Canllaw ynghylch Cwblhau eich Aseiad Risg

Mae pum cam i gwblhau aseiad risg yn llwyddiannus ar gyfer eich digwyddiad. Dyma'r camau:

- Cam 1 - Nodi'r Peryglon
- Cam 2 - Penderfynu a allai rhywun gael niwed a sut
- Cam 3 - Penderfynu ar y risgiau
- Cam 4 - Cofnodi eich canfyddiadau
- Cam 5 - Adolygu a diwygio

Cam 1 - Nodi'r Peryglon

Perygl yw rhywbeth a allai achosi niwed. I nodi'r peryglon posibl yn eich digwyddiad, meddyliwch am y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y digwyddiad, yr offer a fydd yn y digwyddiad a'r lleoliad ei hun. Efallai yr hoffech ystyried y canlynol:

- Unrhyw beryglon o ran llithro, baglu neu gwympo.
- Unrhyw gerbydau yn gyrru ar y safle.
- System wresogi, awyru neu oleuadau wael.
- Peryglon yn ymwneud â risgiau tân neu weithdrefnau gwacáu mewn achos o dân.
- Diogelwch trydanol e.e. defnyddio unrhyw ddyfeisiau trydanol cludadwy.
- Unrhyw risg bosibl o arddangosiadau neu weithgareddau penodol.
- Unrhyw gemegion neu sylweddau eraill sy'n beryglus i iechyd e.e. dwst neu fygdarthau.
- Gweithgareddau codi a chario h.y. codi, gwthio, tynnu.
- Rheoli Traffig.
- Rhannau symudol peiriant.
- Lefelau sŵn uchel.
- Dwysedd tyrfa a mannau cyfyng.

Mae'r rhestr hon ymhell o fod yn gynhwysfawr felly dylech ystyried pa beryglon eraill fydd yn eich digwyddiad.

Cam 2 - Penderfynu a allai rhywun gael niwed a sut

Canllaw i Drefnwyr Digwyddiadau - Ttempld Aseiad Risg Sylfaenol

Ar gyfer pob perygl rydych yn ei nodi, ystyriwch pwy y gallai effeithio arno neu ei roi mewn perygl o anaf. Ni ddylech restru pobl unigol, dylech eu grwpio yn lle hynny, er enghraifft:

- Stiwardiaid.
- Gwerthwyr, arddangoswyr a pherfformwyr.
- Tresmaswyr posibl.
- Gweithwyr.
- Aelodau o'r cyhoedd.
- Menywod beichiog.
- Gwirfoddolwyr.
- Pobl anabl.
- Trigolion lleol.
- Contractwyr.
- Plant a phobl oedrannus.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bethau i'w hystyried:

- Rheoli tyrfa, capasiti, mynediad, allanfeydd a stiwardio.
- Tân, diogelwch a chasglu arian.
- Digwyddiadau mawr posibl.
- Darpariaeth ar gyfer y gwasanaethau brys.
- Materion lechyd a Diogelwch.
- Peryglon safle gan gynnwys meysydd parcio.
- Darparu cymorth cyntaf.
- Arddangoswyr ac arddangosiadau.
- Darparu cyfleusterau.
- Difyrion ac atyniadau.
- Strwythurau.
- Rheoli gwastraff.

Cam 3 - Penderfynu ar y risgiau

Canllaw i Drefnwyr Digwyddiadau - Templed Asesiad Risg Sylfaenol

Mae risg yn cyfeirio at y tebygolrwydd y bydd perygl yn achosi niwed a graddau'r niwed posibl. Yn seiliedig ar hyn, dylech restru'r rheolaethau presennol sydd ar waith ac yna asesu a oes unrhyw reolaethau pellach yn ofynnol. Dylid ystyried y canlynol:

- Unrhyw wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant ynghylch y digwyddiad a'r gweithgareddau.
- Cydymffurfio â safonau deddfwriaethol, codau ymarfer da a Safonau Prydeinig.
- A yw'r rheolaethau presennol wedi lleihau'r risgiau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- Camau ychwanegol angenrheidiol i reoli'r risg.
- Dosbarthu risgiau yn uchel, canolig neu isel.

Ar gyfer pob risg, ystyriwch a ellir cael gwared arni'n gyfan gwbl. Os na ellir, penderfynwch beth y mae'n rhaid ei wneud i'w lleihau i lefel dderbyniol. Defnyddiwch gyfarpar diogelu personol dim ond ar ôl i bopeth arall fethu ac nid oes unrhyw beth rhesymol y gallwch ei wneud. Ystyriwch y canlynol:

- Cael gwared ar y perygl.
- Atal mynediad i'r perygl e.e. drwy ddiogelu rhannau peryglus peiriant.
- Rhoi gweithdrefnau ar waith i leihau dod i gysylltiad â'r perygl.
- Defnyddio cyfarpar diogelu personol.
- Dod o hyd i rywbeth arall yn lle'r gweithgaredd/peiriant ac ati

Cam 4 - Cofnodi eich canfyddiadau

Cwblhewch y templed ffurflen asesu risg yn y ddogfen hon. Byddwch yn gallu cofnodi'r holl beryglon sylweddol, natur a gradd y risgiau, a'r camau sydd angen eu cymryd i'w rheoli. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw copi er mwyn hyfforddi eich staff a'ch gwirfoddolwyr. Os oes angen cyfarwyddyd pellach arnoch, gallech hefyd gyfeirio at ddogfennau eraill y mae'n bosibl y bydd gennych, megis llawlyfrau neu godau ymarfer, a gallech hefyd lawrlwytho'r llawlyfr *Events Safety Information* sydd ar gael ar Bridgendbites.com.

Cam 5 - Adolygu a diwygio

Os yw natur y digwyddiad yn newid mewn unrhyw ffordd yn ystod y camau cynllunio, bydd angen adolygu a diweddarau'r asesiad risg.

Ffurflen Aseu Risg

Enw'r digwyddiad:	Trefnydd y digwyddiad:
Disgrifiad:	Asesydd risg (os yw'n wahanol i'r uchod) Printiwch yr enw Llofnod
Lleoliad:	Dyddiad y cwblhawyd aseiad risg (1):
Dyddiad y digwyddiad:	Dyddiad yr aseiad diwygiedig (2):
	Dyddiad yr aseiad diwygiedig (3):

Canllaw i Drefnwyr Digwyddiadau - Templed Aseiad Risg Sylfaenol

Perygl	Pwy sydd mewn perygl o niwed?	Lefel y risg*	Rhagofalon sydd ar waith	Camau pellach sydd angen eu cymryd	Gan bwy	Pryd

*Lefel y risg: isel (I), canolig (C), uchel (U)